Hysbysiadau Archwilio

Ardystio a chymeradwyo cyfrifon blynyddol ar gyfer 2019-20

Mae rheoliad 15 (1) o Reoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Tref Rhuthun lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno'n deg sefyllfa ariannol Cyngor Tref Rhuthun ar ddiwedd y flwyddyn ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 30 Mehefin 2020.

Nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi llofnodi a thystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 oherwydd pandemig COVID-19. Bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi a bydd y swyddog ariannol cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio'r datganiad o gyfrifon pan fydd pwysau uniongyrchol yr achos COVID-19 wedi tawelu.

Cyhoeddi cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Mae rheoliad 15 (5) o Reoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, erbyn 30 Medi 2020, i Gyngor Tref Rhuthun gyhoeddi ei ddatganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn neu adroddiad a gyhoeddwyd, a roddwyd neu a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r datganiadau cyfrifyddu ar ffurf ffurflen flynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, cyhoeddir y cyfrifon cyn i'r archwiliad ddod i ben. Oherwydd effaith COVID-19, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn archwilio eto.